UK Health Security Agency

Pecyn o 7 prawf llif unffordd        Prawf trwyn yn unig

# Eich canllaw cam wrth gam i Hunan-brawf COVID-19 Getein Biotech

**Rhybudd** Peidiwch â chyfuno a chymysgu elfennau o becynnau prawf eraill.

**Darllenwch y canllaw cyfan yn ofalus cyn dechrau.**
Efallai y bydd y prawf yma'n wahanol i brofion a ddefnyddioch yn flaenorol.

## Prawf trwyn yn unig




1. Swabiwch y ddwy ffroen
2. Proseswch y sampl
3. Arhoswch
4. Canlyniadau

**Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ganllaw cam wrth gam ar gyfer perfformio prawf llif unffordd COVID-19 Getein Biotech arnoch chi'ch hun neu berson arall. Efallai y bydd darparwr eich prawf yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ychwanegol ynghylch pryd i wneud eich prawf neu adrodd ar eich canlyniad.**

I gael mynediad at fersiynau mewn ieithoedd eraill a fformatau eraill o'r cyfarwyddyd hwn, ewch i: gov.uk/covid19-self-test-help

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cyfeirio at Getein Biotech One Step Test for SARS-CoV-2 Antigen (Prawf Un Cam Getein Biotech ar gyfer Antigen SARS-CoV-2) (Coloidaidd Aur), ar gyfer hunanbrawf, cod cynnyrch: CG206157.

REF CG206157

**CO-23-0043 Getein IFU Tach 2023**
**TC2813**

# Beth sydd angen i chi ei wneud

## Eich canllaw cam wrth gam

Darllenwch trwy’r cyfarwyddiadau yn ofalus a dilyn y camau yn y drefn gywir.

### Pam ddylech chi wneud hunan-brawf

Mae’r pecyn hunan-brawf COVID-19 yma yn brawf swab ar gyfer y trwyn i wirio os oes gennych y firws ac a ydych yn heintus, hyd yn oed os nad oes gennych symptomau.

## Yn y llyfryn hwn


| | |
|---|---|
| Beth sydd angen i chi ei wneud | 2 |
| Canllaw a rhagofalon | 3 |
| Ynglŷn â'r prawf hwn | 4 |
| Paratoi eich ardal brawf | 5 |
| Gwiriwch gynnwys eich pecyn | 6 |
| Paratoi eich prawf | 7 |
| Gwneud prawf ar rywun arall | 9 |
| Cymryd eich sampl swab | 10 |
| Prosesu’r sampl swab | 11 |
| Darllen eich canlyniadau | 13 |

# Canllaw a rhagofalon

- Peidiwch â defnyddio unrhyw gydran o'r pecyn prawf os yw'r pecyn wedi'i ddifrodi, wedi torri sêl, neu os yw'n ymddangos bod y gydran wedi torri.
- Peidiwch â chymysgu elfennau o flychau gwahanol becynnau prawf. Defnyddiwch y cydrannau cit a ddarperir yn y pecyn hwn yn unig, oherwydd ni fydd hylif o un math o brawf yn gweithio gyda math arall o brawf.
- Mae pob rhan o'r pecyn prawf at ddefnydd sengl yn unig ac eithrio'r daliwr tiwb echdynnu. Peidiwch ag ailddefnyddio unrhyw rannau heblaw'r daliwr tiwb.
- Mae'r pecynnau hyn wedi'u cynllunio at ddefnydd dynol yn unig.
- Storiwch allan o gyrraedd plant. Mae'r pecyn prawf yn cynnwys rhannau bach a all fod yn berygl tagu.
- Os oes gennych un neu fwy o dyllau trwyn, tynnwch nhw cyn swabio.
- Peidiwch â defnyddio grym gormodol, neu bwyso neu blygu'r swab pan fyddwch chi'n casglu'r samplau swab, gan y gallai hyn dorri'r swab.
- Os bydd eich trwyn yn gwaedu yn ystod swabio, stopiwch swabio. Os oes gwaed ar y swab, ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer y prawf. Arhoswch 24 awr cyn gwneud prawf newydd.
- Peidiwch â gadael i'r casét prawf ddod i gysylltiad ag unrhyw gynhyrchion glanhau cartref, oherwydd gallai hyn achosi canlyniad anghywir.
- Glanhewch arllwysiadau o'r tiwb plastig gan ddefnyddio hancesi papur a diheintydd cartref.
- Efallai na fydd y prawf yn addas ar gyfer pobl sydd wedi cael llawdriniaeth ar yr wyneb neu'r pen yn ystod y 6 mis diwethaf, neu unrhyw un sy'n dueddol o gael gwaedu trwyn.
- Os oes gennych broblemau gyda'ch dwylo neu'ch golwg, efallai y bydd angen cymorth rhywun arall arnoch gyda'r broses swabio a phrofi.

# Ynglŷn â'r prawf hwn

## Mae'r prawf hwn yn addas ar gyfer:

**Oedolion 18 oed a throsodd**
Hunan-brawf, gyda chymorth os oes angen.

**Pobl ifanc rhwng 12 ac 17 oed**
Hunan-brofi gyda goruchwyliaeth oedolyn (a chymorth os oes angen).

**Plant**
Dylai plant 11 oed ac iau gael eu profi gan oedolyn.

### Storio a thrin

- Storiwch y pecyn profi ar dymheredd ystafell arferol mewn lleoliad sych, heb fod yn rhy gynnes (4°C i 30°C).
- Peidiwch â'i adael mewn golau haul uniongyrchol a pheidiwch â'i storio mewn rhewgell.
- Dylech ddefnyddio'r pecyn ar dymheredd ystafell (15°C i 30°C). Os yw'r pecyn wedi'i storio mewn ardal o dan 15°C, gadewch ar dymheredd ystafell arferol am 30 munud cyn ei ddefnyddio.

### Os ydych chi'n arddangos symptomau newydd COVID-19

Ewch i nhs.uk/coronavirus i gael y cyngor mwyaf cyfredol.

**Rhybudd**




**Os ydych chi'n poeni am eich symptomau**, neu os bydd eich symptomau'n gwaethygu, cysylltwch â meddyg teulu, ymweld â gwasanaeth ar-lein **111** y GIG ar **111.nhs.uk** neu ffonio **111** i siarad â rhywun yn uniongyrchol.
Mewn argyfwng meddygol, ffoniwch **999** ar unwaith.

# Paratoi eich ardal brawf

**Bydd angen y canlynol arnoch:** Amserydd fel oriawr, cloc neu ddyfais symudol, hancesi papur, glanhawr arwyneb, hylif diheintio dwylo neu sebon a dŵr cynnes.




1. Darllenwch y canllaw cyfarwyddyd hwn yn ofalus.

   Os oes angen mwy o help arnoch, ewch i: [gov.uk/covid19-self-test-help](gov.uk/covid19-self-test-help)

---



2. Yn syth cyn cychwyn y prawf, cliriwch, glanhewch a sychwch arwyneb gwastad i roi'r pecyn profi arno.

---




3. Golchwch eich dwylo'n drylwyr am 20 eiliad, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes, neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo.

   Os ydych yn cynnal mwy nag un prawf, glanhewch yr arwyneb a golchwch eich dwylo eto rhwng pob prawf.

# Gwiriwch gynnwys eich pecyn

| **Rhybudd** | Peidiwch â chyfuno a chymysgu elfennau o becynnau prawf eraill. |
|---|---|

## Yn eich blwch pecyn profi, fe ddylech weld:

| **1x** | **7x** | **7x** | **7x** | **7x** |
|---|---|---|---|---|
| Blwch gyda thwll daliwr tiwb echdynnu | Bagiau offer | Swabiau di-haint | Cerdyn prawf antigen SARS-CoV-2 mewn pecyn casét wedi ei selio | Tiwb echdynnu gyda hylif echdynnu sampl a ffon |
|  |  |  |  |  |

| **Rhybudd** | Cyn i chi ddechrau, gwiriwch y dyddiad dod i ben ar y blwch pecyn prawf a'r cwdyn wedi'i selio (EXP). Peidiwch â defnyddio'r pecyn prawf os yw wedi dod i ben. |
|---|---|

# Paratoi eich prawf

| **Pwysig** | Peidiwch â defnyddio'r ddyfais brofi wedi ei ddyddiad defnyddio olaf. |
|---|---|



**4** Tynnwch y casét prawf o'r pecyn wedi'i selio a'i osod ar yr arwyneb gwastad sydd wedi'i lanhau.

Pan fyddwch wedi'i agor, dechreuwch y prawf o fewn 60 munud.

---



**5** Gan gadw'r tiwb echdynnu i ffwrdd o'ch wyneb, pliciwch y ffilm selio o'r tiwb echdynnu yn ysgafn er mwyn osgoi gollwng unrhyw hylif.

| **Rhybudd** | Peidiwch â cheisio rhwygo'r ffilm selio i ffwrdd â'ch dannedd. |
|---|---|

Ceisiwch osgoi cael hylif byffer ar eich croen. Os yw'r hylif byffer yn mynd ar eich croen neu yn eich llygaid, rinsiwch yn dda â dŵr a gofynnwch am gyngor meddygol os bydd llid yn digwydd.

---



**6** Rhowch y tiwb echdynnu sy'n cynnwys y byffer yn nhwll y daliwr tiwb echdynnu yn y blwch.



**7** **Chwythwch eich trwyn yn ofalus** mewn hances bapur fel na fydd llysnafedd yn sbwylio'r prawf. Taflwch yr hances bapur mewn bin.
Os ydych yn profi plentyn/dibynnydd, helpwch nhw i chwythu eu trwyn, os oes angen.




**8** **Golchwch eich dwylo'n drylwyr** am 20 eiliad gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes neu hylif diheintio dwylo cyn trin y pecyn profi er mwyn osgoi ei halogi.
Os ydych yn helpu plentyn/dibynnydd, **rhaid i'r ddau ohonoch olchi eich dwylo'n drylwyr** am 20 eiliad neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo.







**9** Chwiliwch am y swab di-haint yn y pecyn wedi ei selio. Pan fyddwch chi'n barod i ddechrau'r prawf, pliciwch y pecyn swab ar agor ar ben y ffon.

Tynnwch y swab allan yn ofalus. Byddwch yn ofalus i beidio â chyffwrdd yn y blaen ffabrig gyda'ch bysedd.

**Rhybudd** Peidiwch â gadael i flaen y swab gyffwrdd ag unrhyw beth cyn i chi gymryd eich sampl, neu bydd angen i chi ddechrau eto gyda swab ffres.

# Gwneud prawf ar rywun arall

Dylai plant dan 12 oed gael eu profi gan oedolyn. Dilynwch y canllawiau ar sut i baratoi a phrofi plentyn neu berson sydd angen cymorth ar:
[gov.uk/covid19-self-test-help](gov.uk/covid19-self-test-help)

Dangoswch y pecyn prawf i'r plentyn ac eglurwch beth rydych chi'n mynd i'w wneud. Os yn bosibl, eisteddwch nhw ar lin rhywun neu gofynnwch i rywun ddal ei law.

Gofynnwch i'r plentyn chwythu ei drwyn neu ei thrwyn mewn hances bapur. Rhowch yr hances bapur yn y bin a golchwch eich dwylo'n drylwyr am 20 eiliad, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes neu hylif diheintio dwylo.

Os nad ydych chi'n teimlo'n hyderus i gynnal y prawf, neu os yw'r plentyn yn cwyno ei fod yn brifo, peidiwch â pharhau â'r prawf.




**10** **Ffroen gyntaf**

Rhowch flaen ffabrig y swab yn ysgafn y tu mewn i ffroen gyntaf y plentyn. Peidiwch â rhoi'r swab fwy nag 1.5cm i mewn i'w trwyn.




**11**

Sychwch y swab yn ysgafn o gwmpas y tu mewn i'r ffroen 4 gwaith mewn symudiad cylchol. Gwnewch yn siŵr bod cyswllt da rhwng blaen y ffabrig a thu mewn y ffroen.

**12** **Ail ffroen**

Rhowch flaen ffabrig yr un swab yn union y tu mewn i ail ffroen y plentyn. Ailadroddwch y symudiad cylchol 4 gwaith gyda chyswllt da rhwng blaen y ffabrig a thu mewn i'r ffroen.

# Cymryd eich sampl swab

| **Cyngor** | I gael y perfformiad gorau, rhowch y swab yn y tiwb echdynnu a'r byffer cyn gynted â phosibl wedi swabio'r ffroenau. |
|---|---|




### 13 Ffroen gyntaf

Rhowch flaen ffabrig y swab y tu mewn i'r ffroen gyntaf tua 1.5 cm. Nid oes angen i chi ei wthio i mewn ymhell ac nid oes angen unrhyw rym.

Sychwch y swab yn ysgafn o gwmpas y tu mewn i'r ffroen o leiaf 4 gwaith mewn symudiad cylchol. Gwnewch yn siŵr bod cyswllt da rhwng blaen y ffabrig a thu mewn y ffroen.




### 14 Ail ffroen

Rhowch flaen ffabrig yr un swab y tu mewn i'r ail ffroen. Ailadroddwch y symudiad cylchol 4 gwaith gyda chyswllt da rhwng blaen y ffabrig a thu mewn i'r ffroen.

| **Rhybudd** | Os byddwch chi, neu rywun rydych chi'n eu swabio, yn cael gwaedu trwyn wrth swabio, peidiwch â pharhau, gan na ellir profi'r sampl. Os bydd gwaedu yn parhau, ymgynghorwch â meddyg. |
|---|---|

# Prosesu'r sampl swab




**15** Rhowch flaen ffabrig y swab yn yr hylif yn y tiwb echdynnu a throi'r swab **o leiaf 10 o weithiau.**




**16** Gwasgwch y blaen yn erbyn tu fewn y tiwb yn gadarn **3 gwaith.**



**17** Tynnwch y swab allan o'r tiwb echdynnu.

Gwthiwch y cap ffroenell yn dynn ar y tiwb echdynnu i osgoi unrhyw ollyngiadau.



**18** Rhowch y swab yn y bag sip plastig.

| **Cyngor** | Gellir defnyddio'r bag sip unigol fel y bag gwastraff. |
| --- | --- |

| Cyngor | Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r casét profi ar arwyneb gwastad a lefel. Peidiwch â symud y casét profi yn ystod y prawf.<br>Ychwanegwch y diferion i'r ffynnon sampl yn araf. Peidiwch â'i orlenwi. |
| --- | --- |




**19** Gwasgwch y tiwb echdynnu yn ofalus i roi **3 diferyn** o hylif yn y ffynnon sbesimen (wedi ei farcio ag **S**) ar y casét profi.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gollwng hylif ac nid swigen aer.




**20** Gosodwch amserydd ac aros **10 munud** cyn i chi ddarllen eich canlyniad.

| Rhybudd | Peidiwch â gadael i'r prawf ddatblygu am fwy na **20 munud** gan y bydd hyn yn gwneud y canlyniad yn annilys. |
| --- | --- |

# Darllen eich canlyniadau

## Os bydd eich canlyniad yn bositif




**Mae dwy linell yn ymddangos.**
Dylai un llinell liw fod yn ardal y llinell reoli (**C**), a llinell liw arall yn ardal y llinell brawf (**T**).

Mae dwy linell, un wrth ymyl **C** ac un wrth ymyl **T**, hyd yn oed os ydynt yn llinellau gwan, yn dangos bod canlyniad y prawf yn bositif.

Os cewch ganlyniad positif, gallech fod yn heintus iawn.

### beth i'w wneud nesaf:
Dilynwch y cyngor ar aros gartref ac osgoi cyswllt â phobl eraill.
Ewch i: **nhs.uk/stay-at-home**

Os yn bosibl, rhowch wybod i bobl rydych wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw am eich canlyniad prawf positif.

## Os ydych chi'n profi negyddol




Mae un llinell liw yn ymddangos yn yr ardal llinell reoli (**C**). Does dim llinell liw yn ymddangos yn y rhanbarth llinell brawf (**T**). Os byddwch yn cael canlyniad negatif, mae’n debygol nad oeddech chi'n heintus pan wnaed y prawf.

Nid yw canlyniad negatif yn warant nad oes gennych COVID-19. Dylech chi a’ch aelwyd ddilyn cyngor ar sut i osgoi dal a lledaenu COVID-19.
Ewch i: **nhs.uk/how-to-avoid-covid**

## Canlyniad amhendant




Os nad yw’r llinell rheoli (**C**) yn ymddangos, neu dim ond un bar coch (**T**) sy'n ymddangos, mae hyn yn golygu bod y prawf yn annilys.

**Os byddwch yn cael canlyniad amhendant,** mae hyn yn golygu nad yw’n bosibl i ni ddweud a oedd y firws arnoch pan gynhaliwyd y prawf. I wirio a oes gennych coronafirws, ailadroddwch y prawf o gam un gan ddefnyddio cit newydd. Peidiwch ag ailddefnyddio unrhyw beth o'r prawf cyntaf.

**Gwaredu’ch pecyn profi yn ddiogel**
Pan fyddwch wedi cwblhau eich prawf, rhowch yr holl eitemau o’r pecyn profi a ddefnyddiwyd yng ngwastraff cyffredinol y cartref. Golchwch eich dwylo’n drylwyr ar ôl gwaredu.

**Cyngor**

**Rhoi adborth am eich prawf neu adrodd am niwed**

Os oes unrhyw ran o’ch pecyn prawf wedi ei ddifrodi neu ar goll, peidiwch â defnyddio’r pecyn profi hwnnw. Gallwch ddal i ddefnyddio’r pecynnau profi eraill yn y pecyn.

Os byddwch yn cael eich niweidio gan ddyfais neu os oes gennych adborth am eich pecyn profi, gallai adrodd amdano helpu eraill.
Ewch i: **gov.uk/covid-19-test-feedback.**

## DEFNYDD BWRIADEDIG

Mae One Step Test for SARS-CoV-2 Antigen (Coloidaidd Aur) wedi'i fwriadu ar gyfer canfod ansoddol yr antigenau SARS-CoV-2 mewn samplau swab trwynol dynol. Defnyddir y prawf hwn ar gyfer unigolion yr amheuir bod ganddynt COVID-19 o fewn saith diwrnod cyntaf y symptomau, megis cur pen, twymyn, peswch, dolur gwddf, colli synnwyr arogli neu flas, diffyg anadl a phoen yn y cyhyrau. Gellir cymhwyso'r prawf hefyd ar gyfer unigolion heb symptomau. Mae'r canlyniadau ar gyfer adnabod Antigen SARS-CoV-2. Mae canlyniadau positif yn dangos presenoldeb antigenau SARS-CoV-2, ond mae angen hanes unigol a gwybodaeth ddiagnostig arall i bennu statws haint. Nid yw canlyniadau negatif yn diystyru haint SARS-CoV-2. Mae'n debyg y dylid trin canlyniadau negatif ar gyfer unigolion â symptomau tebyg i haint COVID-19 am fwy na saith diwrnod fel rhai negatif. Os oes angen, dylid ei gadarnhau trwy brawf moleciwlaidd. Bwriedir defnyddio One Step Test for SARS-CoV-2 Antigen (Coloidaidd Aur) i helpu gwneud diagnosis o haint SARS-CoV-2. Defnyddir y prawf hwn ar gyfer hunan-brofi.

## EGWYDDOR

Mae'r prawf yn defnyddio protein niwcleocapsid (N protein) gwrth-SARS-CoV-2 gwrthgorff monoclonaidd I cyfunedig â gorchudd aur coloid ar y pad sampl, a haen gwrthgorff monoclonaidd N protein gwrth-SARS-CoV-2 II arall ar linell prawf. Ar ôl i'r samplau gael eu rhoi ar y stribed prawf, mae'r gwrthgorff monoclonaidd protein N gwrth-SARS-CoV-2 â label coloid aur yn rhwymo ag antigenau SARS-CoV-2 mewn sampl ac yn ffurfio cyfuniadau antigen-gwrthgorff wedi'u marcio. Mae'r cyfuniadau hyn yn symud i'r parth canfod cerdyn prawf trwy weithredu capilari. Yna bydd cyfuniadau antigen-gwrthgorff wedi'u marcio yn cael eu dal ar linell prawf gan wrthgorff monoclonaidd N protein gwrth-SARS-CoV-2 II. Mae dwyster lliw pob llinell brawf yn cynyddu yn gymesur â faint o antigen SARS-CoV-2 yn y sampl.

### NODWEDDION PERFFORMIAD

**1 Terfyn Canfod (LoD)**

Sefydlwyd y Terfyn Canfod ar gyfer swab trwynol gan ddefnyddio straen ynysu SARS-CoV-2 anweithredol â gwres. Cafodd y straen ei sbeicio â swab trwynol dynol negyddol i gyfres o grynodiadau. Cadarnhawyd y Terfyn Canfod amcangyfrifedig a ganfuwyd o'r prawf gwanhau cyfresol deublyg cychwynnol trwy brofi 20 atgynhyrchiad. Y Terfyn Canfod a gadarnhawyd ar gyfer swab trwynol oedd 200 $TCID_{50}$/mL.

**2 Astudiaeth Cytundeb Clinigol**

Gwerthuswyd perfformiad clinigol One Step Test for SARS-CoV-2 Antigen -2 (Coloidaidd Aur) trwy brofi cyfanswm o 480 o samplau swab trwynol. Mae'n cael ei gymharu â chanlyniadau profion RT-PCR. Dangoswyd canlyniadau cyffredinol yr astudiaeth yn y tablau isod.

| Cyfanswm | | Pecyn RT-PCR BGI | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Positif | Negatif | Is-gyfanswm |
| Pecyn Getein | Positif | 165 | 4 | 169 |
| | Negatif | 5 | 306 | 311 |
| | Is-gyfanswm | 170 | 310 | 480 |

Cytundeb canran positif (Sensitifrwydd diagnostig) = 165 / (165 + 5) ×100%= 97.06% (95% CI: 93.30%-98.74%)
Cytundeb canran negatif (Penodoldeb diagnostig) = 306 / (306 + 4) ×100%= 98.71% (95% CI: 96.73%-99.50%)
Cyfanswm cytundeb canrannol = (165 + 306) / 480 × 100% = 98.13% (95% CI: 96.48%-99.01%)

**3 Penodoldeb Dadansoddol**

**3.1 Traws-adweithedd ac Ymyrraeth Microbaidd**

Profwyd pob organeb a firws yn driphlyg yn absenoldeb a phresenoldeb SARS-CoV-2 yn y drefn honno. Yn ôl canlyniadau'r profion, nid oedd unrhyw groes-adweithedd â'r firysau neu'r organebau canlynol.

| Firysau neu organebau | Gallu i ganolbwyntio |
|---|---|
| Coronafeirws dynol 229E | 1 x $10^5$ PFU/mL |
| Coronafeirws dynol OC43 | 1 x $10^5$ PFU/mL |
| Coronafeirws dynol NL63 | 9.87 x $10^3$ PFU/mL |
| Coronafeirws MERS | 7930 PFU/mL |
| Adenofeirws (e.e. C1 Ad.71) | 1 x $10^5$ PFU/mL |
| Metaniwmofeirws Dynol (hMPV) | 1 x $10^5$ PFU/mL |
| Firws Parainffliwensa Math 1 | 1 x $10^5$ PFU/mL |
| Firws Parainffliwensa Math 2 | C PFU/mL |
| Firws Parainffliwensa Math 3 | 1 x $10^5$ PFU/mL |
| Firws Parainffliwensa Math 4a | 1 x $10^5$ PFU/mL |
| Y Ffliw A | 1 x $10^5$ PFU/mL |
| Y Ffliw B | 2.92 x $10^4$ PFU/mL |
| Enterofirws | 1 x $10^5$ PFU/mL |
| Feirws syncytiol anadlol | 1 x $10^5$ PFU/mL |
| Rhinofeirws | 4.17 x $10^5$ PFU/mL |
| Ffliw Haemoffilws | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Streptococcus pneumoniae | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Streptococws pyogenes | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Candida albicans | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Golchiad trwynol dynol wedi'i gronni | 14% v/v |
| Bordetella pertwsis | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Mycoplasma pneumoniae | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Chlamydia pneumoniae | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Legionella pneumophila | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Twbercwlosis mycobacterium | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Pneumocystis jirovecii | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Pseudomonas Aeruginosa | 1 x $10^6$ CFU/ml |
| Staffylococcus Epidermidis | 1 x $10^6$ CFU/mL |
| Streptococcus Salivarius | 1 x $10^6$ CFU/mL |

**3.2 Ymyriadau**

Y sylweddau a allai fod yn ymyrryd y gellir eu canfod yn y llwybr anadlol uchaf mewn goddrychau symptomatig (gan gynnwys meddyginiaethau dros y cownter). Ni welwyd unrhyw ganlyniadau positif ffug neu negatif ffug yn y crynodiadau canlynol.

| Sylweddau a Allai Ymyrryd | Gallu i ganolbwyntio |
|---|---|
| Gwaed (dynol) | 5% |
| Mwcin | 5 mg/mL |
| GEL Trwynol (NeilMed) | 5% v/v |
| Diferion Trwynol CVS (phenylephrine) | 15% v/v |
| Afrin (Oxymetazoline) | 15% v/v |
| Chwistrell Trwynol CVS (Cromolyn) | 15% v/v |
| Zicam Cold Remedy | 5% v/v |
| Homeopathig (Alkalol) | 10% v/v |
| Chwistrell Ffenol Dolur Gwddf | 15% v/v |
| Tobramycin | 3.3 mg/dL |
| Mupirocin | 0.15 mg/dL |
| Fluticasone | 5% v/v |
| Tamiflu (Oseltamivir phosphate) | 500 mg/dL |
| Biotin | 0.35 mg/dL |
| Methanol | 0.15% w/v |
| Diphenhydramine | 0.0774 mg/dL |
| Dextromethorphan | 0.00156 mg/dL |
| Dexamethasone | 1.2 mg/dL |

**4.Cywirdeb**

Ar gyfer astudiaeth ailadroddadwyedd, y canran cytundeb o samplau negyddol a samplau positif yw 100%. Ar gyfer astudiaeth atgenhedlu, mae canran cytundeb y samplau negyddol a'r samplau positif yn 100%.

## Symbolau a ddefnyddiwyd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 30°C / 4°C | Storiwch o fewn 4℃ -30℃ | STERILE EO | Diheintiwyd gan ddefnyddio erthylan ocsid | | Gwneuthurwr |
| LOT | Rhif lot | | Dyddiad defnyddio erbyn | IVD | Dyfais feddygol ddiagnostig in vitro |
| | Cadwch allan o olau haul | | Dyddiad cynhyrchu | | Peidiwch â'i ailddefnyddio |
| | Cadwch yn sych | | Gweler y cyfarwyddiadau ar gyfer defnydd | | Rhybudd |
| Σ 7 | Cynhwysir digon ar gyfer 7 o brofion | | Peidiwch â defnyddio os yw'r pecyn wedi ei ddifrodi | | Ailgylchadwy |
| CE 1434 | Nod CE | UK RP | Person cyfrifol yn y Deyrnas Unedig | EC REP | Cynrychiolydd awdurdodedig yn y Gymuned Ewropeaidd |
| LATEX | Rhydd o latecs | REF | Rhif catalog | | |

Getein Biotech
Cyfeiriad: No. 9 Bofu Road, Luhe District, Nanjing, 211505, China (Tsieina)
Ffôn: +86-25-68568508 E-bost: tech@getein.com.cn Gwefan: www.getein.com

CE 1434
Tystygrif EC Rhif.1434-IVDD-195_2022

EC REP
CMC Medical Devices & Drugs S.L
Cyfeiriad: C/ Horacio Lengo N° 18,
CP 29006, Málaga, Spain (Sbaen)
Ffôn: +34951214054

UK RP
CMC Medical Devices Ltd.
Cyfeiriad: Office 32 19-21 Crawford Street,
London, United Kingdom (Y Deyrnas Unedig)
E-bost: info@cmcmedicaldevices.com

**Gwneuthurwr y swab**

**Jiangsu Hanheng Medical Technology Co., Ltd.**
16 -B4, #1 North Qingyang Road, Tianning District, 213017, Changzhou, Jiangsu, China (Tsieina)

**Nneu**

**Jiangsu Changfeng Medical Industry Co, Ltd.**
Touqiao Town, Guangling District Yangzhou 225109 Jiangsu P. R.China (P.R. Tsieina)

EC REP
Llins Service & Consulting GmbH
Obere Seegasse 34/2, 69124 Heidelberg Germany
(Yr Almaen)
CE 0197

EC REP
Luxus Lebenswelt GmbH
Kochstr.1, 47877, Willich, Germany
(Yr Almaen)
CE 0197